CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Trawsgydymffurfio: dŵr daear (GAEC 3) (2017)

Crynodeb o'r rheolau ar ddiogelu dŵr daear rhag llygredd amaethyddol.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 1 Ionawr 2017

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 15 Rhagfyr 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-dwr-daear-gaec-3-2017-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Cyflwyniad

Diffiniad

Y prif ofynion

Archwiliadau maes

Arfer da

Gwybodaeth pellach



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-dwr-daear-gaec-3-2017-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Nod y gofyniad hwn yw diogelu dwˆr daear rhag cael ei lygru gan weithgareddau amaethyddol.

# Diffiniad

- diffinnir dŵr daear fel unrhyw ddŵr sydd islaw wyneb y tir sydd mewn parth dirlawnder (hynny yw, islaw'r lefel trwythiad) ac yn cysylltu'n uniongyrchol â'r tir neu'r isbridd
- mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru restr gyflawn o sylweddau peryglus a sylweddau nad ydynt yn beryglus

# Y prif ofynion

- o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010,  rhaid cael trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gwaredu sylweddau peryglus neu sylweddau nad ydynt yn beryglus ar dir yn unig ac mae'n rhaid i chi fodloni holl amodau'r drwydded
- peidiwch â gwasgaru hen ddip defaid ar dir serth nac ar dir sy'n draenio'n wael, yn llawn dŵr neu sydd wedi cracio
- peidiwch â gwasgaru unrhyw sylweddau peryglus neu sylweddau nad ydynt yn beryglus ar dir sydd o fewn 10 metr o ddŵr wyneb neu 50 metr o ffynnon, pistyll, twll turio neu gwrs dŵr sy'n bwysig i natur
- lle bynnag mae sylweddau peryglus neu sylweddau sy'n llygru yn cael eu defnyddio, eu cynhyrchu, eu storio neu eu trin, bydd disgwyl i ffermwyr gadw at y Codau Ymarfer amrywiol e.e. Cod Gwaredu Dip Defaid a gofynion Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli LLygredd) (Storio Olew) (Cymru) 2016/

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-dwr-daear-gaec-3-2017-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

359

## Archwiliadau maes

- gofalu bod gennych drwydded ddilys gan Cyfoeth Naturiol Cymru cyn gwaredu sylweddau pheryglus a sylweddau nad ydynt yn beryglus ar y tir
- gofalu nad yw hen fatrïau cerbydau yn llygru dŵr daear

## Arfer da

- rhaid i ffermwyr a chontractwyr ddilyn y Cod Ymarfer Defnyddio a Gwaredu Cyfansoddion Dip Defaid yn ogystal ag unrhyw ofynion trwyddedu penodol. Mae copïau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru
- wrth waredu dip defaid, gwasgarwch ychydig ar y tro ee ddim mwy na 5 metr ciwbig yr hectar os nad ydych am ei deneuo neu, os ydych yn defnyddio tancer sugno neu 20 metr ciwbig yr hectar os ydych wedi'i gymysgu gyda 3 rhan o slyri neu ddŵr, yn ogystal ag unrhyw ganllawiau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u cyhoeddi yn y drwydded
- mae cyngor i ffermwyr ar storio olew i'w weld ar wefan Ymgyrch Oil Care: **www.oilcare.org.uk/look-after-your-oil/ farmers-horticulture/**

## Gwybodaeth pellach

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

- Llywodraeth Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-dwr-daear-gaec-3-2017-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

neu gweler y daflen **Trawsgydymffurfio: cysylltiadau defnyddiol (2024)** o fewn y pecyn hwn.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/trawsgydymffurfio-dwr-daear-gaec-3-2017-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.